



At:

Awdurdodau Lleol yng Nghymru
(at sylw Swyddogion Cyllid Myfyrwyr)
Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru sy'n cynnig cyrsiau Addysg Uwch
dynodedig
Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru sy'n cynnig cyrsiau Addysg Uwch
dynodedig
Y Cwmni Benthyciadau i Fyfrwyr
UCAS
Prifysgol Agored Cymru
Grŵp Rhanddeiliaid Cyllid Myfyrwyr Cymru
NUS Cymru
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Ionawr 2012

Annwyl Gydwethiwr

CYMORTH MYFYRWYR ADDYSG UWCH YN 2012/13:

RHEOLIADAU GRANTIAU A BENTHYCIADAU DYSGU Y CYNULLIAD (ADDYSG UWCH) (CYMRU) (RHIF 2) 2011

Daeth Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 2) 2011 i rym ym mis Ebrill 2011. Byddant yn rheoli cymorth myfyrwyr addysg uwch ar gyfer blwyddyn academiaidd 2012/13.

Bydd y rheoliadau hyn yn cael eu diwygio yn gynnar yn 2012. Felly, mae'r adrannau yn y ddogfen hon sy'n ymwneud â sefydliadau preifat, dysgu llawn amser o bell, cymorth i garcharorion, cymorth rhan-amser, a'r Tabl sy'n ymwneud â chyrsiau meddygaeth a deintyddiaeth i raddedigion yn amodol ar reoliadau diwygiedig.

Mae copïau electronig o Reoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 2) 2011 ar gael i'w lawrlwytho o wefan OPSI yn <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/886/contents/made>

Dylai'r sefydliadau sydd angen copïau papur o'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol ffonio, e-bostio neu ysgrifennu at y Llyfrfa (gweler manylion cyswllt isod).

YMHOLIADAU

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y Rheoliadau Cymorth i Fyfrwyr neu am yr Hysbysiad Gwybodaeth hwn, dylech gysylltu yn y lle cyntaf ag Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru drwy'r e-bost studentfinancedivision@wales.gsi.gov.uk



ARCHEBU COPIAU O'R RHEOLIADAU CYMORTH I FYFYRWYR

Gellir archebu'r Rheoliadau o'r Llyfrfa yn:

TSO Orders/ Post Cash Dept
PO Box 29
Norwich
NR3 1GN

Ffôn: 0870 600 5522

E-bost: customer.services@tso.co.uk



Rheoliadau Cymorth i Fyfyrrwyr 2012/13: crynodeb o newidiadau

Nodyn Cefndir:

Ar 30 Tachwedd 2010, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau y byddai prifysgolion Cymru yn cael codi uchafswm o £9,000 o ffioedd dysgu ar gyfer blwyddyn academaidd 2012/13, ond y byddai grant newydd ar gael i wneud iawn am y cynnydd. Er mwyn gallu codi ffioedd uwch na'r ffi sylfaenol o £4,000, rhaid i sefydliadau addysg uwch (SAU) ddangos ymrwymiad i gynyddu mynediad a chyflawni amcanion strategol eraill drwy gyflwyno cynllun ffioedd i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Bydd CCAUC a'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr (SLC) yn goruchwyllo'r mecanwaith taliadau newydd a bydd awdurdodau lleol Cymru yn parhau i asesu a yw myfyrrwyr yn gymwys i dderbyn cymorth.

Pecyn cymorth i fyfyrrwyr sylfaenol ar gyfer 2012/13

Bydd myfyrrwyr llawn amser newydd sy'n preswyl fel arfer yng Nghymru, gan gynnwys y rhai sy'n penderfynu cymryd 'blwyddyn i ffwrdd' yn 2011 a chymryd eu lle yn y brifysgol yn 2012, yn gymwys i dderbyn y pecyn canlynol o gymorth i fyfyrrwyr ar gyfer cyrsiau o 1 Medi 2012:

- benthyciad ffi dysgu heb brawf modd o hyd at £3,465 (cynnydd o 2.7%);
- grant ffi dysgu newydd heb brawf modd i dalu am y gwahaniaeth rhwng yr uchafswm benthyciad ffi dysgu sydd ar gael a'r ffi dysgu a godir mewn gwirionedd gan y brifysgol yn y DU (uchafswm grant o £5,535 os codir ffi dysgu o £9,000);
- grant Dysgu y Cynulliad ar sail prawf modd (grant cynhaliaeth) o hyd at £5,000 yn dibynnu ar incwm yr aelwyd (wedi'i ailbennu i gyfradd 2010/11);
- benthyciad cynhaliaeth ar sail prawf modd hyd at £3,673 i rai sy'n byw yng nghartref y rhieni, hyd at £4,745 i rai sy'n byw i ffwrdd o gartref y rhieni, a hyd at £6,648 i rai sy'n astudio yn Llundain);
- diddymu benthyciad cynhaliaeth yn rhannol o hyd at £1,500 ar ôl dechrau talu'r ad-daliadau.

Crynodeb o'r newidiadau i gymorth Llawn Amser

Cais

Mae'n rhaid i fyfyrwr gwblhau cais am gymorth i fyfyrrwyr er mwyn profi ei fod yn gymwys i dderbyn cynhyrchion cymorth ffi dysgu. Ni fydd Grant Ffi Newydd yn cael ei dalu os nad yw'r myfyriwr wedi cwblhau cais, ond ni fydd yn rhaid i'r myfyriwr wneud cais penodol am y Grant Ffi Newydd ar y cais.



Myfyrwyr Cymwys

Er mwyn bod yn gymwys am becyn blwyddyn academaidd 2012/13 rhaid i gyrsiau'r myfyrwyr ddechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2012. Felly, bydd unrhyw fyfyrwr sy'n dechrau cyn 1 Medi 2012 yn cael ei asesu o dan becyn cymorth carfan blwyddyn academaidd 2011/12.

Talu'r cymorth

O flwyddyn academaidd 2012/13 bydd tri phwynt ar wahân ar gyfer atebolrwydd ffi dysgu. Bydd yn ofynnol i Sefydliadau Addysg Uwch gadarnhau presenoldeb myfyrwr llawn amser ar 3 achlysur cyfrifiad ar wahân, un ar ddechrau pob tymor, cyn i randaliad o Fenthyciad Ffi Dysgu neu Grant Ffi Newydd gael eu talu.

Bydd y cymorth ffi dysgu sy'n daladwy ar gyfer y flwyddyn academaidd yn cael ei ryddhau fesul 25%, yn dilyn cadarnhau atebolrwydd y myfyrwr ar bwynt atebolrwydd y tymor cyntaf (diwrnod cyntaf y tymor), 25% pellach ar ôl cadarnhau atebolrwydd y myfyrwr ar bwynt atebolrwydd yr ail dymor, a'r 50% sy'n weddill yn dilyn cadarnhau atebolrwydd y myfyrwr ar bwynt atebolrwydd y trydydd tymor.

Mae dyletswydd *statudol* ychwanegol wedi'i osod yn awr ar sefydliadau i hysbysu awdurdodau lleol pan fo myfyrwyr yn rhoi'r gorau i fynyachu eu cyrsiau. Mae hyn yn ofynnol er mwyn diogelu cronfeydd cyhoeddus a sicrhau nad yw taliadau'n cael eu rhyddhau i fyfyrwyr sydd wedi tynnu'n ôl neu drosglwyddo o'r cwrs yr oeddynt yn ei ddilyn yn y lle cyntaf.

Talu cymorth yr 'hen drefn' (myfyrwyr cyn 2006) i barhau ym mlwyddyn academaidd 2012/13

Bydd y trefniadau cyfredol i gadarnhau presenoldeb yn parhau yn 2012/13.

Trefniadau Trosiannol

- Bydd myfyrwyr sy'n trosglwyddo ar neu ar ôl 1 Medi 2012 o gwrs a ddechreuodd cyn 1 Medi 2012 i gwrs arall gyda'r un dull o astudio yn cael eu hasesu o dan y trefniadau cymorth i fyfyrwyr a ffi dysgu sy'n gymwys i'w cwrs cyntaf (fel myfyrwr parhaus).
- Bydd myfyrwyr sy'n trosglwyddo ar neu ar ôl 1 Medi 2012 o gwrs a ddechreuodd cyn 1 Medi 2012 i gwrs arall gyda gwahanol ddull o astudio yn cael eu hasesu o dan y trefniadau cymorth i fyfyrwyr a ffi dysgu sy'n gymwys i'w hail gwrs (h.y. fel myfyrwr carfan 2012 newydd sy'n dechrau astudio ar neu ar ôl 1 Medi 2012).
- Bydd myfyrwyr sy'n dechrau cwrs 'gorffen ar' (sydd â'r un dull o astudio â'r cwrs lefel is a'i rhagflaenodd) ar neu ar ôl 1 Medi 2012 ar ôl cwblhau cwrs lefel is a ddechreuodd cyn 1 Medi 2012 yn cael eu hasesu fel myfyrwr sy'n parhau o dan y trefniadau cymorth i fyfyrwr ym mlwyddyn academaidd 2012/13.
- Bydd myfyrwyr sy'n gwneud cwrs 'ychwanegol' (nid 'gorffen ar') o gwrs lefel is a ddechreuodd cyn 1 Medi 2012 i gwrs lefel uwch a ddechreuodd ar neu ar ôl 1 Medi 2012 yn cael eu hasesu o dan y trefniadau cymorth i fyfyrwr a ffi dysgu newydd ym mlwyddyn academaidd 2012/13.
- Bydd myfyrwyr sy'n ymrestru mewn SAU ym mlwyddyn academaidd 2011/12 ond sy'n tynnu'n ôl ac yn ailymgeisio mewn SAU newydd ym mlwyddyn 2012/13 yn cael eu hasesu o dan y trefniadau cymorth i fyfyrwr a ffi dysgu newydd ym mlwyddyn academaidd 2012/13.



Myfyrwyr sy'n trosglwyddo i SAU arall sy'n codi ffioedd uwch/is o flwyddyn academaidd 2012/13

Mae **Atodiad 1** yn darparu rhai enghreifftiau (Myfyrwyr **A-D**) sy'n dangos sut bydd dosraniad y Benthyciad Ffi Dysgu a Grant Ffi Newydd yn cael ei gyfrifo ar gyfer myfyriwr sy'n cwblhau'r flwyddyn neu wrth i fyfyriwr drosglwyddo yn ystod y flwyddyn. Mae cyfyngiadau systemau'r Cwmni Benthyciadau i Fyfywyr yn effeithio ar sut bydd 75% o incwm ffi yn cael ei ddosrannu i'r ail SAU yn nymhorau 2 a 3 wrth i fyfyriwr drosglwyddo o'r SAU cyntaf yn nymor 1 (gweler enghraifft Myfyriwr **B**).

Myfyrwyr yn tynnu'n ôl ac atebolwydd myfyrwyr

Os yw myfyriwr yn tynnu'n ôl yn nymor 1 yn dilyn cadarnhâd o bresenoldeb, bydd uchafswm eu hatebolwydd yn cael ei gyfyngu i 25% o gyfanswm y ffi dysgu sy'n daladwy yn y tymor hwnnw (50% os yw'n tynnu'n ôl yn nymor 2).

Efallai na fydd rhai SAU am godi'r uchafswm ar y myfyriwr sy'n dilyn tynnu'n ôl yn gynnar oherwydd, er enghraifft, rhesymau personol dilys. Pe bai'r SAU yn penderfynu codi swm is ar y myfyriwr sy'n tynnu'n ôl, bydd angen i'r sefydliad hysbysu'r Cwmni Benthyciadau i Fyfywyr/CCAUC drwy ffurflen Newid Amgylchiadau gan ddangos y ffi ostyngedig a godwyd. Bydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfywyr/CCAUC yn adhawlio'r gweddill gweler enghraifft Myfyriwr **F**).

Ad-dalu

Bydd myfyrwyr llawn amser yn dechrau ad-dalu ar ddechrau'r flwyddyn ariannol ar ôl cwblhau neu dynnu'n ôl o gwrs, ond ni fydd unrhyw fyfyriwr sy'n dechrau eu hastudiaethau ar neu ar ôl 1 Medi 2012 yn gorfod dechrau ad-dalu cyn 6 Ebrill 2016. Gweler symiau ad-dalu nodweddiadol ar wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru ar gyfer cymorth 12/13 yn www.cyllidmyfyrwyr.cymru.co.uk

Trosglwyddo rhwng dull o astudio a dyddiad dechrau ad-dalu

Mae'r rheolau canlynol yn gymwys lle bo myfyrwyr yn dechrau cwrs ar neu ar ôl 1 Medi 2012 ac yn newid o gwrs llawn amser i gwrs rhan-amser neu fel arall:

- os yw myfyriwr yn dechrau astudio'n llawn amser ac yn trosglwyddo i astudio'n rhan-amser, dylai'r myfyriwr ddechrau ad-dalu'r holl fenthyciad ffi a gafodd (gan gynnwys taliadau a wnaed pan oedd y myfyriwr wedi'i gofrestru yn llawn amser) yn y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar ôl i dair blynedd fynd heibio ers dyddiad dechrau'r cwrs (h.y. y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 6 Ebrill 2016 os dechreuodd y myfyriwr astudio ar 1 Medi 2012). [Fel myfyriwr rhan-amser, pennir dyddiad dechrau ad-dalu statudol y myfyriwr gan reolau ad-dalu rhan-amser a thrwy ddefnyddio dyddiad dechrau'r cyfnod astudio.]
- os yw myfyriwr yn dechrau astudio'n rhan-amser ac yn trosglwyddo i astudio'n llawn amser cyn y dyddiad dechrau ad-dalu statudol ar gyfer myfyrwyr rhan-amser, dylid dechrau ad-dalu'r holl fenthyciadau a gymerwyd (gan gynnwys taliadau a wnaed pan gofrestrwyd y myfyriwr yn rhan-amser) ar ddechrau'r flwyddyn ariannol ar ôl i'r myfyriwr gwblhau neu dynnu'n ôl o'r cwrs (fel myfyrwyr llawn amser eraill)
- os yw myfyriwr yn dechrau astudio'n rhan-amser ac yn trosglwyddo i astudio'n llawn amser ar ôl y dyddiad dechrau ad-dalu statudol ar gyfer myfyrwyr rhan-amser, dylid dechrau gwneud taliadau benthyciad llawn amser ar ôl i'r dyddiad dechrau ad-dalu statudol ar gyfer y cwrs astudio hwn cyn gynted â'u bod yn cael eu gwneud (fel unrhyw



daliadau rhan-amser a wnaed i'r myfyriwr ar ôl y dyddiad dechrau ad-dalu statudol pe bai'r myfyriwr wedi parhau i astudio'n rhan-amser).

Myfyrwyr UE

Dim ond myfyrwyr llawn amser o'r UE sy'n astudio yng **Nghymru** fydd yn gymwys am yr un benthyciad ffi a phecyn grant ffi newydd myfyrwyr llawn amser sy'n byw fel arfer yng Nghymru. Bydd ceisiadau'n parhau i gael eu trafod gan dîm Ewropeaidd y Gwasanaethau Cyllido Myfyrwyr sydd wedi'i leoli yn Darlington.

Cymorth i garcharorion

Mae **Atodiad 2** yn crynhoi'r newidiadau arfaethedig. Bwriedir cynnwys y newidiadau hyn yn Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) (Rhif 2) 2012, i'w gwblhau ym mis Ebrill 2012.

Dysgu o Bell

O flwyddyn academaidd 2012/13, bydd myfyrwyr llawn amser sy'n dilyn eu cyrsiau drwy ddysgu o bell yn cael yr un driniaeth â'u cymheiriaid sy'n mynychu'r sefydliadau yn bersonol o ran cymorth ffi.

Gall myfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru, sy'n dechrau cyrsiau dysgu o bell llawn amser mewn unrhyw weinyddiaeth yn y DU (a myfyrwyr UE sy'n dechrau cyrsiau AU llawn amser yng Nghymru yn unig) ar neu ar ôl 1 Medi 2012, fanteisio ar fenthyciad ffi dysgu heb brawf modd i dalu am y cyfan, neu ran, o'r £3,465 cyntaf a godir, a grant ffi newydd o hyd at £5,535 i dalu unrhyw swm ychwanegol o ffi a godir sy'n uwch na £3,465 y flwyddyn academaidd. Ni fydd myfyrwyr dysgu o bell llawn amser yn gymwys am fenthyciadau neu grantiau ar gyfer costau byw, ac eithrio'r un grantiau a dargedir y gallant eu hawlio ar hyn o bryd.

Dynodi cyrsiau dysgu o bell

Ar hyn o bryd mae'n ofynnol dynodi cyrsiau dysgu o bell llawn amser ar sail unigol. Cynigir na fydd yn ofynnol mwyach i gyrsiau dysgu o bell a ddarperir gan sefydliadau a gyllidir yn gyhoeddus i gael eu dynodi'n benodol. Byddant yn amodol ar yr un meini prawf dynodi ar gyfer cymorth i fyfyrwyr â chysiau llawn amser eraill a ddarperir gan sefydliadau a gyllidir yn gyhoeddus, fel y rhestrir yn Atodlen 2 y Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, bydd yn dal yn ofynnol dynodi cyrsiau dysgu o bell llawn amser mewn sefydliadau preifat yn benodol o ran myfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru.

Cyfnod Cymhwyster

Mae diwygiad i Reoliad 6(9)(b) yn cael ei ystyried (yn amodol ar gymeradwyaeth Gweinidogol) i roi ychydig mwy o hyblygrwydd i Weinidogion Cymru wrth iddynt weithredu'r rheol hon. Y cynnig yw caniatáu ail flwyddyn gymorth ychwanegol (yn dilyn tynnu yn ôl o'r cwrs blaenorol diweddaraf am resymau personol dilys) yn ôl disgrisiwn Gweinidogion Cymru.

Cymorth rhan-amser

Ni fydd newidiadau i gymorth rhan-amser yn 2012/13 ar gyfer myfyrwyr rhan-amser o Gymru. Yn dilyn ymgynghori â rhanddeiliaid, mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi cytuno i oedi cyn gweithredu'r grant ffi/pecyn benthyciad ar gyfer myfyrwyr rhan-amser newydd. Bydd



darpariaeth ran-amser yn cael ei gweithredu eto yn rheoliadau diwygio 2012/13 ar gyfer myfyrwyr newydd ar yr un sail ag ar gyfer myfyrwyr sy'n parhau'n rhan-amser.

Astudio y tu hwnt i Gymru

Nid yw myfyrwyr o Gymru sy'n astudio'n rhan-amser mewn sefydliad AU y tu hwnt i Gymru yn gymwys am y grant ffi cyfredol, ond maent yn dal yn gymwys ar gyfer mathau eraill o gymorth. Gallai ffioedd rhan-amser a godir gan sefydliadau Lloegr yn 2012 fod yn llawer uwch na lefelau ffioedd ar gyfer blynyddoedd academaidd blaenorol.

Ymestyn y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau gan fyfyrwyr rhan-amser

Ar hyn o bryd mae'n ofynnol i fyfyrwyr rhan-amser gyflwyno'u cais am gymorth 'o fewn cyfnod o chwe mis sy'n dechrau gyda diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd y cwrs y gwneir y cais amdano'. Bwriedir (yn amodol ar gymeradwyaeth Gweinidogol) ymestyn y dyddiad cau hwn i 9 mis er mwyn sicrhau cysondeb â'r broses gwneud cais llawn amser.

Sefydliadau Preifat

Bydd myfyrwyr sy'n dechrau cyrsiau mewn sefydliadau preifat ar ôl 1 Medi 2012 yn gymwys am fenthyciad ffi dysgu heb brawf modd o hyd at £6,000. Bydd angen hunangyllido unrhyw swm ychwanegol o ffi dysgu a godir gan sefydliad preifat. Ni fydd unrhyw gymorth Grant Ffi Newydd ar gael (gweler enghraifft Myfyriwr **E**).



Cymorth ar gyfer cyrsiau'r GIG

TABLE: Y CYMORTH SYDD AR GAEL I FYFYRWYR CYRSIAU MEDDYGAETH A DEINTYDDIAETH DERBYN YN 2012/13 (YN AMODOL AR REOLIADAU DIWYGIEDIG Y DISGWYLIR IDDYNT DDOD I RYM AR 1 CHWEFROR)

Meddygaeth (cwrs derbyn graddedigion cywasgedig 4 blynedd)

	Sefyllfa gyfredol			Sefyllfa arfaethedig i fyfyrwyr newydd sy'n dechrau eu hastudiaethau ar neu ar ôl 1 Medi 2012		
Blwyddyn Astudio	GIG yn talu ffioedd dysgu	Hunangyllido ffioedd dysgu	Benthyciad Cynhaliaeth	GIG yn talu ffioedd dysgu	Ffioedd dysgu	Benthyciad Cynhaliaeth
1	Nac ydi	Ydi	Cyfradd lawn	Nac ydi	Hunangyllido hyd at £3465; cynnig benthyciad am y gweddi	Cyfradd lawn
2	Ydi	Nac ydi	Cyfradd ostyngedig	Ydi – hyd at £3465	Benthyciad ar gael hyd at £5535	Cyfradd ostyngedig
3	Ydi	Nac ydi	Cyfradd ostyngedig	Ydi – hyd at £3465	Benthyciad ar gael hyd at £5535	Cyfradd ostyngedig
4	Ydi	Nac ydi	Cyfradd ostyngedig	Ydi – hyd at £3465	Benthyciad ar gael hyd at £5535	Cyfradd ostyngedig

Nyrsys, bydwagedd a Gweithwyr Iechyd Proffesiynol Cysylltiedig – AHP – (gan gynnwys therapyddion galwedigaethol, therapyddion lleferydd, ffisiotherapyddion ac ati – rhestr lawn ar gael gan yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd.)

Noder na chyfeirir at gymorth ffi yn y tabl isod gan fod y cymorth hwn yn cael ei gomisiynu a'i dalu'n uniongyrchol gan y GIG gydol y cyrsiau hyn.

	Sefyllfa gyfredol			Sefyllfa arfaethedig i fyfyrwyr newydd sy'n dechrau eu hastudiaethau ar neu ar ôl 1 Medi 2012		
	Bwrsariaeth heb brawf modd	Bwrsariaeth ar sail prawf modd	Benthyciad cynhaliaeth	Bwrsariaeth heb brawf modd	Bwrsariaeth ar sail prawf modd	Benthyciad cynhaliaeth
Nyrsio/bydwreigiaeth	£6701	Dim	Dim	£1000	Hyd at £4395	Hyd at £2324
AHP	Dim	Hyd at	Hyd at	£1000	Hyd at	Hyd at



		£3534	£2324		£4395	£2324
--	--	-------	-------	--	-------	-------

Meddygaeth (Cwrs 5 mlynedd)

	Sefyllfa gyfredol			Sefyllfa arfaethedig i fyfyrwyr newydd sy'n dechrau eu hastudiaethau ar neu ar ôl 1 Medi 2012		
Blwyddyn Astudio	GIG yn talu ffioedd dysgu	Hunangyllido ffioedd dysgu	Benthyciad Cynhaliaeth	GIG yn talu ffioedd dysgu	Cymorth ffi dysgu ar gael	Benthyciad Cynhaliaeth
1	Nac ydi	Ydi	Cyfradd lawn	Nac ydi	Ydi	Cyfradd lawn
2	Nac ydi	Ydi	Cyfradd lawn	Nac ydi	Ydi	Cyfradd lawn
3	Nac ydi	Ydi	Cyfradd lawn	Nac ydi	Ydi	Cyfradd lawn
4	Nac ydi	Ydi	Cyfradd lawn	Nac ydi	Ydi	Cyfradd lawn
5	Ydi	Nac ydi	Cyfradd ostyngedig	Ydi, ar gyfer carfan 12/13; nid yw'r polisi ar gyfer y dyfodol wedi'i gadarnhau eto.	Nac ydi	Cyfradd ostyngedig

Deintyddiaeth (Cwrs 5 mlynedd)

	Sefyllfa gyfredol			Sefyllfa arfaethedig i fyfyrwyr newydd sy'n dechrau eu hastudiaethau ar neu ar ôl 1 Medi 2012		
Blwyddyn Astudio	GIG yn talu ffioedd dysgu	Hunangyllido ffioedd dysgu	Benthyciad Cynhaliaeth	GIG yn talu ffioedd dysgu	Cymorth ffi dysgu ar gael	Benthyciad Cynhaliaeth
1	Nac ydi	Ydi	Cyfradd lawn	Nac ydi	Ydi	Cyfradd lawn
2	Nac ydi	Ydi	Cyfradd lawn	Nac ydi	Ydi	Cyfradd lawn
3	Nac ydi	Ydi	Cyfradd lawn	Nac ydi	Ydi	Cyfradd lawn
4	Nac ydi	Ydi	Cyfradd lawn	Nac ydi	Ydi	Cyfradd lawn
5	Ydi	Nac ydi	Cyfradd ostyngedig	Ydi, ar gyfer carfan 12/13; nid yw'r polisi ar gyfer y dyfodol wedi'i gadarnhau eto.	Nac ydi	Cyfradd ostyngedig



Atodiad 1**CYLLID MYFYRWYR CYMRU****Taliadau benthyciad ffi dysgu a grant ffi newydd os yw'r myfyriwr wedi cwblhau'r flwyddyn**

Mae Myfyriwr A yn dechrau cwrs ym mis Medi 2012, a'r ffi dysgu yw £6,000. Mae Myfyriwr A yn gofyn am fenthyciad ffi dysgu o £3,465 ac mae'n derbyn Grant Ffi Newydd o £2,535.

Ar ôl cadarnhau presenoldeb Myfyriwr A am y tymor 1^{af} telir rhandaliad 1^{af} y cymorth dysgu o £1,500 (25% o £6,000) fel a ganlyn:

Rhandaliad 1^{af} Benthyciad Ffi Dysgu: £866.25 (25% o 3465)

Rhandaliad 1^{af} Grant Ffi Newydd: £633.75 (25% o 2535)

Ar ôl cadarnhau presenoldeb Myfyriwr A am y 2^{il} dymor telir 2^{il} rhandaliad y cymorth dysgu o £1,500 (25% o £6,000) fel a ganlyn:

2^{il} rhandaliad Benthyciad Ffi Dysgu: £866.25 (25% o 3465)

2^{il} rhandaliad Grant Ffi Newydd: £633.75 (25% o 2535)

Ar ôl cadarnhau presenoldeb Myfyriwr A am y 3^{ydd} tymor telir 3^{ydd} rhandaliad o £3,000 fel a ganlyn:

3^{ydd} rhandaliad Benthyciad Ffi Dysgu: £1732.50 (50% o 3465)

3^{ydd} rhandaliad Grant Ffi Newydd: £1267.50 (50% o 2535)

Cyfanswm y Benthyciad Ffi Dysgu a dalwyd: £3,465

Cyfanswm y Grant Ffi Newydd a dalwyd: £2,535

Cyfanswm y cymorth dysgu a dalwyd: **£6,000** (Benthyciad Ffi Dysgu: £3,465, Grant Ffi Newydd: £2,535)

Taliadau benthyciad ffi dysgu a grant ffi newydd yn dilyn trosglwyddo cwrs – codir yr un ffi gan y ddau SAU

Mae Myfyriwr B yn dechrau cwrs ym mis Medi 2012, a'r ffi dysgu yw £6,000. Mae Myfyriwr B yn gofyn am fenthyciad ffi dysgu o £3,465 ac mae'n derbyn Grant Ffi Newydd o £2,535. Ar ôl cadarnhau presenoldeb Myfyriwr B am y tymor 1^{af} telir rhandaliad 1^{af} o £1,500 (25% o £6,000) fel a ganlyn:

Rhandaliad 1^{af} Benthyciad Ffi Dysgu: £866.25 (25% o 3465)

Rhandaliad 1^{af} Grant Ffi Newydd: £633.75 (25% o 2535)



Mae Myfyriwr B yn trosglwyddo yn ystod y tymor 1^{af} i gwrs newydd mewn gwahanol SAU, sydd â'r un tâl dysgu blynyddo o £6,000. Gall y SAU newydd godi 75% o'r ffi blwyddyn academaidd llawn, h.y. £4500, yn daladwy mewn cymhareb o 33% / 67% [cyfyngiad systemau Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr]. Ni all y SAU newydd godi unrhyw ffi am y tymor 1^{af}.

Mae'r SAU newydd yn cadarnhau presenoldeb Myfyriwr B ar gyfer yr 2^{il} dymor a thelir yr ail randaliad o £1,485 (33% o £4,500) fel a ganlyn:

2^{il} randaliad y Benthyciad Ffi Dysgu: £857.58 (33% o 2598.75)

2^{il} randaliad y Grant Ffi Newydd £627.42 (33% o 1901.25)

Ar ôl cadarnhau presenoldeb Myfyriwr B am y 3^{ydd} tymor telir y trydydd rhandaliad o £3,015 (67% o £4,500) fel a ganlyn:

3^{ydd} rhandaliad y Benthyciad Ffi Dysgu: £1741.17 (gweddill y Benthyciad ffi Dysgu hyd at £3465)

3^{ydd} rhandaliad y Grant Ffi Newydd: £1273.83 (gweddill y 3^{ydd} rhandaliad)

Cyfanswm y cymorth dysgu a dalwyd: **£6,000** (Benthyciad ffi Myfyrwyr: £3,465, Grant Ffi Newydd: £2,535)

Taliadau benthyciad ffi dysgu a grant ffi newydd yn dilyn trosglwyddo cwrs – codir ffi is gan yr ail SAU

Mae Myfyriwr C yn dechrau cwrs ym mis Medi 2012, a'r ffi dysgu yw £9,000. Mae Myfyriwr C yn gofyn am fenthyciad ffi dysgu o £3,465 ac mae'n derbyn Grant Ffi Newydd o £5,535. Ar ôl cadarnhau presenoldeb Myfyriwr C ar gyfer y tymor 1^{af} telir y rhandaliad 1^{af} o £2,250 (25% o £9,000) fel a ganlyn:

Rhandaliad 1^{af} y Benthyciad Ffi Dysgu: £866.25 (25% o 3465)

Rhandaliad 1^{af} y Grant Ffi Newydd: £1383.75 (25% o 5535)

Mae Myfyriwr C yn trosglwyddo yn ystod y tymor 1^{af} i gwrs newydd mewn gwahanol SAU, sydd â thâl dysgu blynyddol o £4,000. Gall y SAU newydd godi 75% o'r ffi blwyddyn academaidd llawn, h.y £3,000 yn daladwy mewn cymhareb o 33%/67%. Ni all y SAU newydd godi ffi am y tymor 1^{af}.

Mae'r SAU yn cadarnhau presenoldeb Myfyriwr C ar gyfer yr 2^{il} dymor a thelir yr ail randaliad o £990 (33% o £3,000) fel a ganlyn:

2^{il} randaliad y Benthyciad Ffi Dysgu £857.58 (33% o 2598.75)

2^{il} randaliad y Grant Ffi Newydd: £132.42 (33% o 401.25)



Ar ôl cadarnhau presenoldeb Myfyriwr C ar gyfer y 3^{ydd} tymor, telir y trydydd rhandaliad o £2,010 (67% o £3,000) fel a ganlyn:

3^{ydd} rhandaliad y Benthyciad Ffi Dysgu: £1741.17 (gweddiill y Benthyciad Ffi Dysgu hyd at £3465)

3^{ydd} rhandaliad y Grant Ffi Newydd: £268.83 (gweddiill y trydydd rhandaliad)

Cyfanswm y cymorth dysgu a dalwyd: **£5,250** (Benthyciad Ffi Dysgu: £3,465, Grant Ffi Newydd: £1,785)

Taliadau benthyciad ffi dysgu a grant ffi newydd yn dilyn trosglwyddo cwrs – codir ffi uwch gan yr ail SAU

Mae Myfyriwr D yn dechrau cwrs ym mis Medi 2012, a'r ffi dysgu yw £4,000. Mae Myfyriwr D yn gofyn am fenthyciad ffi dysgu o £3,465 ac mae'n derbyn Grant ffi Newydd o £535. Ar ôl cadarnhau presenoldeb Myfyriwr D am y tymor 1^{af} telir y rhandaliad cyntaf o £1,000 (25% o £4,000) fel a ganlyn:

Rhandaliad 1^{af} y Benthyciad Ffi Dysgu: £866.25 (25% o 3465)

Rhandaliad 1^{af} y Grant Ffi Newydd: £133.75 (25% o 535)

Mae Myfyriwr D yn trosglwyddo yn ystod y tymor 1^{af} i gwrs newydd mewn gwahanol SAU, sydd â thâl dysgu blynyddol o £9,000. Gall y SAU newydd godi 75% o'r ffi blwyddyn academaidd llawn, h.y. £6.750, sy'n daladwy mewn cymhareb o 33%/67%. Ni all y SAU godi unrhyw ffi am y tymor 1^{af}.

Mae'r SAU newydd yn cadarnhau presenoldeb Myfyriwr D ar gyfer yr 2^{il} dymor a thelir yr ail rhandaliad o £2,227.50 (33% o £6,750) fel a ganlyn:

2^{il} rhandaliad y Benthyciad Ffi Dysgu: £857.58 (33% o 2598.75)

2^{il} rhandaliad y Grant Ffi Newydd: £1369.92 (33% o 4151.25)

Ar ôl cadarnhau presenoldeb Myfyriwr D ar gyfer y 3^{ydd} tymor telir y trydydd rhandaliad o £4,522.50 (67% o £6,750) fel a ganlyn:

3^{ydd} rhandaliad y Benthyciad Ffi Dysgu: £1741.17 (gweddiill y Benthyciad Ffi Dysgu hyd at £3465)

3^{ydd} rhandaliad y Grant Ffi Newydd: £2781.33 (gweddiill y 3^{ydd} rhandaliad)

Cyfanswm y cymorth dysgu a dalwyd: **£7,750** (Benthyciad Ffi Dysgu: £3,465, Grant Ffi Newydd: £4,285)



Myfyrwyr yn astudio mewn sefydliad preifat

Mae Myfyriwr E yn dechrau cwrs ym mis Medi 2012, mewn sefydliad a gyllidir yn breifat, ac mae'r ffi dysgu yn £10,000. Mae Myfyriwr E yn gofyn am fenthyciad ffi dysgu o £6,000 (yr uchafswm benthyciad ffi dysgu sydd ar gael ar gyfer astudio'n llawn amser mewn sefydliad preifat). Ar ôl cadarnhau presenoldeb Myfyriwr E ar gyfer y tymor 1^{af} telir rhandaliad 1^{af} y benthyciad ffi dysgu fel a ganlyn:

Benthyciad Ffi Dysgu: rhandaliad 1^{af}: £1,500 (25% o 6,000)

Ar ôl cadarnhau presenoldeb Myfyriwr E ar gyfer yr 2^{il} dymor telir yr 2^{il} rhandaliad fel a ganlyn:

Benthyciad Ffi Dysgu: 2^{il} rhandaliad: £1,500 (25% o 6,000)

Ar ôl cadarnhau presenoldeb Myfyriwr E ar gyfer y 3^{ydd} tymor telir y 3^{ydd} rhandaliad fel a ganlyn:

Benthyciad Ffi Dysgu: 3^{ydd} rhandaliad £3,000 (50% o 6,000)

Atebolrwydd myfyrwyr yn dilyn tynnu'n ôl os yw SAU yn penderfynu gostwng ffi'r tymor 1af

Mae Myfyriwr F yn dechrau cwrs llawn amser dynodedig mewn SAU yng Nghymru a gyllidir yn gyhoeddus ym mis Medi 2012, a'r ffi dysgu yw £8,000. Mae Myfyriwr F yn gofyn am yr uchafswm benthyciad ffi dysgu o £3,465 ac yn derbyn Grant Ffi Newydd o £4,535.

Ar ôl cadarnhau presenoldeb Mnyfyriwr F ar gyfer y tymor 1^{af} telir y rhandaliad cyntaf o £2,000 (25% o £8,000) fel a ganlyn:

Rhandaliad 1^{af} y Benthyciad Ffi Dysgu: £866.25 (25% o £3,465)

Rhandaliad 1^{af} y Grant Ffi Newydd: £1,133.75 (25% o £4,535)

Mae Myfyriwr F yn tynnu'n ôl o'r cwrs cyn yr 2^{il} bwynt atebolrwydd.

Mae'r SAU yn penderfynu gostwng atebolrwydd ffi Myfyriwr F i £500. Bydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrywyr yn hawlio £1,500 yn ôl o'r ffi a dalwyd.

Bydd y swm sy'n cael ei hawlio'n ôl yn cael ei rannu yn ôl y taliadau tymhorol diwethaf a wnaed, h.y. 43.3% Benthyciad Ffi Dysgu ((866.25 / 2000) x 100) a 56.7% Grant Ffi Newydd ((1133.75 / 2000) x 100).

Hawlio Benthyciad Ffi Dysgu yn ôl = $(43.3/100) \times £1,500 = \underline{£649.50}$

Hawlio Grant Ffi Newydd yn ôl = $(56.7/100) \times £1,500 = \underline{£850.50}$

Mae £649.50 yn cael ei hawlio'n ôl o'r benthyciad ffi dysgu a dalwyd ar gyfer y flwyddyn academaidd hon, ac mae £850.50 yn cael ei hawlio'n ôl o'r Grant Ffi Newydd.

Gan fod y ffi ar gyfer y tymor cyntaf wedi newid i £500, a bod £866.25 o'r ffi wreiddiol yn Fenthyciad Ffi Dysgu, sydd yna'n gostwng o £649.50, atebolrwydd newydd neu'r Benthyciad Ffi Dysgu dros ben ar gyfer y myfyriwr yw £216.75 (yn ogystal â llog) ar ôl hawlio'r arian yn ôl.



Atodiad 2

Crynodeb o'r newidiadau y cytunwyd arnynt (yn amodol ar ddiwygio rheoliadau, y disgwylir iddynt ddod i rym ym mis Mai 2012) mewn perthynas ag addysg carcharorion:

- Darparu cymorth i dalu ffioedd i garcharorion o Gymru sy'n dechrau cyrsiau dysgu o bell llawn amser ar ôl 1 Medi 2012 ar yr un sail â myfyrwyr dysgu o bell llawn amser eraill sy'n dechrau cyrsiau ar ôl y dyddiad hwn.
- Cael gwared ar hawl carcharorion lle'n gymwys, i grant ar gyfer costau byw myfyrwyr anabl ar gyrsiau addysg uwch (llawn amser, rhan-amser neu ddysgu o bell llawn amser) ar ôl 1 Medi 2012.
- Sicrhau bod y cyfrifoldeb am ddarparu cymorth i fyfyrwyr sy'n garcharorion yn syrthio ar y wlad lle mae'r myfyriwr yn preswyllo fel arfer cyn cael ei garcharu, yn hytrach nag ar wlad y carchar lle cedwir y myfyriwr.
- Ar gyfer blwyddyn academiaidd 12/13, bydd myfyrwyr-garcharorion newydd yn gallu dilyn cyrsiau AU rhan-amser yn yr un ffordd â myfyrwyr-garcharorion cyfredol. Mae'r Brifysgol Agored wedi cytuno, trwy eithriad, i ymrestru myfyrwyr newydd o Gymru mewn carchardai yn Lloegr gyda Phrifysgol Agored Cymru, yn hytrach na Phrifysgol Agored Lloegr fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Bydd hyn yn golygu y bydd CCAUC yn gallu parhau i dalu Prifysgol Agored ymru am y gwasanaeth (yn yr un ffordd ag y mae'n ei wneud yn awr).
- Cyfyngu'r cymorth ffi (llawn amser, rhan-amser (o flwyddyn academiaidd 13/14) a dysgu o bell llawn amser) i'r carcharorion hynny gyda dyddiad rhyddhau o fewn 6 mlynedd i ddyddiad dechrau eu cwrs ac sydd â chaniatâd awdurdodau'r carchar i ddilyn y cwrs.

